OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 502 (Cy.43)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 25 Chwefror 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 26 Chwefror 2008
Yn dod i rym - - 21 Mawrth 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 59, 60 a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

Enwi, cychwyn a chymhwyso.

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 21 Mawrth 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Gorchymyn

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Rhan 39 o Atodlen 2 (amddiffyn dofednod ac adar caeth eraill dros dro)—

(a) ym mharagraff A.2(c) yn lle "on or before the relevant date" rhodder "as soon as practicable on or after the relevant date"; a

(b) ym mharagraff A.3, yn y diffiniad o "relevant date" yn lle "2008" rhodder "2009".

(**1**) 1990 p.8, y mae iddi ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59, 60 a 333(7), bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Cyn hynny fe'u trosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672): gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i newidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 ac Atodlen 3 iddo, (O.S. 2000/253). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd Adran 333(4) o Ddeddf 1990, mae'r pwerau a roddwyd gan Adrannau 59, 60 a 333 (7) o Ddeddf 1990 yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(**3**) O.S. 1995/418; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1999/293, 2004/3156 (W.273), 2006/1282, 2006/1386 (Cy.136) and 2007/952 (Cy.83).